# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 13 Ionawr 2020

Amser: 13.15 - 15.18

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5633

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Gareth Bennett AC<br>Vikki Howells AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Darren Millar AC (yn lle Nick Ramsay AC)<br>Lynne Neagle AC |
| Tystion: | Megan Colley, Llywodraeth Cymru<br>Alistair Davey, Llywodraeth Cymru<br>Steve Davies, Llywodraeth Cymru<br>Albert Heaney, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Adrian Crompton<br>Matthew Mortlock<br>Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1.Cafwyd ymddiheuriadau gan Nick Ramsay AC, Cadeirydd y Pwyllgor. Roedd Darren Millar AC yn dirprwyo ar ei ran.

1.2 Gofynnodd y Clerc am enwebiadau i ethol Cadeirydd dros dro o dan Reol Sefydlog 17.22. Enwebodd Jenny Rathbone AC Darren Millar AC, a gafodd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor, a Lynne Neagle AC yn benodol, a oedd yn bresennol yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.4 Cafwyd ymddiheuriadau gan Adam Price AC.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (20 Rhagfyr 2019)

### 2.2 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (20 Rhagfyr 2019)

## 3 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru;

3.1 Aeth y Pwyllgor ati i graffu ar waith Llywodraeth Cymru fel rhan o'r ymchwiliad i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal.

3.2 Roedd nifer o bwyntiau gweithredu a fydd yn cael eu cynnwys mewn llythyr gan y Cadeirydd ynghyd â sylwadau'r Pwyllgor.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law a chytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i holi am nifer o faterion a godwyd yn ystod y cyfarfod.